**Y FFRAMWAITH PERFFORMIAD CYNLLUNIO**
**DISGRIFIAD MANWL O DDANGOSYDDION A THARGEDAU**

1. Mae siart y Fframwaith Perfformiad Cynllunio a gafodd ei fabwysiadu ym mis Tachwedd 2014 yn ffordd i nodi perfformiad awdurdodau cynllunio lleol (awdurdodau) ar sail dangosyddion a thargedau y cytunwyd arnynt. Mae'n categoreiddio perfformiad yr awdurdodau yn un o dri band: coch/ambr/gwyrdd:

| GWELLA | GWEDDOL | DA |
|---|---|---|
| • Mae safon yr elfen hon o'r gwasanaeth yn is na'r hyn sy'n dderbyniol. Dylid ceisio sicrhau gwelliant yn y 12 mis nesaf | • Dylai'r awdurdod ystyried nodi ac efelychu enghreifftiau o arferion da mewn awdurdodau eraill. | • Mae'r awdurdod wedi perfformio at safon uchel, ac mae'n rhoi esiampl dda i eraill ei dilyn. |

2. Mae'r dangosyddion yn y siart Fframwaith Perfformiad wedi'u rhannu'n bum categori:

- Gwneud Cynlluniau
- Effeithlonrwydd
- Ansawdd
- Ymgysylltu
- Gorfodi

Fe welwch restr o'r dangosyddion yn Atodiad A.

3. Mae'r ddogfen hon yn rhestru'r dangosyddion a'r targedau sydd yn siart y Fframwaith Perfformiad, ac yn eu diffinio'n glir.

Daeth stop ar y gwaith o baratoi a chyhoeddi'r Fframwaith adeg y pandemig am y bu'n rhaid sianelu adnoddau'r awdurdodau cynllunio lleol a Llywodraeth Cymru at ddibenion eraill. Cafodd yr adroddiad diwethaf ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2019. Er mwyn gwerthuso effeithiau'r cynigion sydd â'r nod o wella effeithiolrwydd, gwytnwch a chapasiti gwasanaethau cynllunio, ac er mwyn monitro perfformiad yn effeithiol, gwnaethon ni ailgyflwyno'r Fframwaith Perfformiad ar 1 Ebrill 2025. Mae'r fframwaith wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau i'r polisi cenedlaethol ac i gasglu data am wytnwch a chapasiti gwasanaethau cynllunio. Nid oes targedau penodol wedi'u pennu ar gyfer pob dangosydd. Yn yr achosion hynny, dywedir bod y targed 'i'w feincodi'. Caiff y targedau hyn eu pennu mewn trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru.

## ADRAN 1 – GWNEUD CYNLLUN

**Dangosydd 01. A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun?**

**GWELLA**

- Nid oes cynllun datblygu yn ei le (gan gynnwys cynlluniau sydd wedi dod i ben)

**DA**

- Mae cynllun datblygu yn ei le ac o fewn cyfnod y cynllun

4. Mae “cynllun datblygu” yn golygu Cynllun Datblygu Unedol neu Leol. Mae “yn ei le” yn golygu bod yr awdurdod wedi mabwysiadu’r cynllun yn ffurfiol. Mae “o fewn cyfnod y cynllun” yn golygu nad yw dyddiad dod i ben y cynllun wedi pasio – e.e. byddai cynllun 15 mlynedd a gafodd ei fabwysiadu ar 01 Ebrill 2001 yn dod i ben ar 31 Mawrth 2016. Tan fod cynllun newydd yn cael ei baratoi, mae’r cynllun sydd ‘wedi dod i ben’ yn para’n ‘fyw’.

5. Bydd Cynlluniau Datblygu Lleol gafodd eu mabwysiadu ar ôl 4 Ionawr 2016 yn peidio â bod yn gynlluniau datblygu lleol unwaith y bydd cyfnod amser y cynllun wedi dod i ben. Canlyniad hynny yw, unwaith y daw dyddiad gorffen y cynllun, bernir na fydd gan yr awdurdod dan sylw gynllun datblygu yn ei le.

**DANGOSYDD 02. Y gwyriad, wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd.**

**GWELLA**

- Eir i'r afael â'r CDLl fwy na 18 mis yn hwyrach na'r dyddiad a nodir ar y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol

**GWEDDOL**

- Eir i'r afael â'r CDLl o fewn 12 i 18 mis i'r dyddiadau a nodir ar y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol.

**DA**

- Eir i'r afael â'r CDLl o fewn 12 mis i'r dyddiadau a nodir yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol.

6. Caiff hwn ei fesur o ddyddiad cychwyn i ddyddiad gorffen gweithgareddau sydd wedi’u nodi yn y cytundeb cyflenwi gwreiddiol a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru. Y pedwar prif weithgaredd y mesurir eu llithriant yw:

    - Cyhoeddi’r ymgynghoriad cyn adneuo (Rheoliad 15)
    - Cyhoeddi ymgynghoriad adneuo (Rheoliad 17)
    - Cyflwyno CDLl i Weinidogion Cymru ei archwilio (Rheoliad 22)
    - Mabwysiadu (Rheoliad 25)

7. Bydd y ddefnyddir ond yn berthnasol os yw’r awdurdod wrthi’n paratoi neu’n adolygu ei CDLl.

**DANGOSYDD 03. Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u paratoi ar ôl i'r CDLl gael ei fabwysiadu**

| GWELLA | DA |
|---|---|
| • Mae'n amser cyflwyno AMB, ac nid oes un wedi'i baratoi mewn pryd. | • Mae'n amser cyflwyno AMB ac mae un wedi'i baratoi |

8. Rhaid cyflwyno AMB i Weinidogion Cymru ar ôl y flwyddyn ariannol lawn gyntaf sy'n dilyn mabwysiadu'r CDLl, a dylid cyflwyno'r AMB yn y mis Hydref canlynol e.e. dylid cyflwyno AMB ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15 ym mis Hydref 2015. Os na fydd AMB felly wedi'i gyflwyno erbyn diwedd Hydref, mae hynny'n golygu bod y targed wedi'i fethu.

9. Ni ddefnyddir y dangosydd hwn ond os oes angen AMB.

**DANGOSYDD 04. – Amser rhwng rhoi Rheoliad 41 ar waith a chyflwyno Cytundeb Cyflenwi er mwyn adolygu'r cynllun, mewn misoedd.**

| GWELLA | TEG | DA |
|---|---|---|
| • Caiff y Cytundeb Cyflenwi ei gyflwyno mwy nag 18 mis ar ôl i Reoliad 41 gael ei roi ar waith | • Caiff y Cytundeb Cyflenwi ei gyflwyno rhwng 12 a 18 mis ar ôl i Reoliad 41 gael ei roi ar waith | • Caiff y Cytundeb Cyflenwi ei gyflwyno lai na 12 mis ar ôl i Reoliad 41 gael ei roi ar waith |

10. O fewn 6 mis i Gynllun Datblygu Lleol roi Rheoliad 41 ar waith, dylai Adroddiad Adolygu gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Yn dilyn hyn, dylai Cytundeb Cyflenwi ar gyfer adolygu'r cynllun gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn pen 6 mis ar ôl i'r Adroddiad Adolygu gael ei gyflwyno. Dyma gyfnod o 12 mis. Bydd unrhyw oedi o ran cyflwyno Cytundeb Cyflenwi yn arwain yn y pen draw at oedi o ran adolygu cynllun.

**DANGOSYDD 05. Cyfnod adolygu Cynllun Datblygu Lleol yn gwyro o'r dyddiadau a bennwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd**

| GWELLA | DA |
|---|---|
| • Mae gwaith adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn mynd rhagddo'n hwyrach na'r dyddiadau a bennwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol | • Mae gwaith adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn mynd rhagddo o fewn y dyddiadau a bennwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol |

11. Yn yr un modd â dangosydd 02, caiff hyn ei fesur o ddyddiadau cychwyn a gorffen allweddol ar gyfer gweithgareddau a bennir yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru. Mae'r tri phrif weithgaredd a ddefnyddir i gyfrifo llithriant yn cyd-fynd â Dangosydd 02 a chânt eu rhestru isod:

- Cyhoeddi ymgynghoriad cyn adneuo (Rheoliad 15)
- Cyhoeddi ymgynghoriad adneuo (Rheoliad 17)
- Cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol i Lywodraeth Cymru at ddibenion archwilio (Rheoliad 22)

12. Mae Llawlyfr y Cynlluniau Datblygu (argraffiad 3) yn dweud y dylai'r holl Awdurdodau Cynllunio Lleol adolygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol o fewn tair blynedd a hanner, gyda chyfnod llithriant o hyd at 3 mis ynghlwm wrth hynny. Mae unrhyw lithriant y tu hwnt i'r cyfnod o 3 mis yn awgrymu na fydd modd i Awdurdod Cynllunio Lleol gyrraedd y cam mabwysiadu o fewn yr amserlen sy'n ofynnol.

13. Nid yw'r dangosydd hwn ond yn berthnasol os yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wrthi'n adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol.

**DANGOSYDD 06. Cyflawni yn ôl y trywydd tai a fabwysiadwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol**

| GWELLA | DA |
|---|---|
| Nid yw'r awdurdod wedi cwblhau nifer cronnus y tai a ragwelwyd am ddwy flynedd neu fwy o'r bron. | Mae'r awdurdod wedi cwblhau nifer cronnus y tai a ragwelwyd neu nid yw wedi methu â'u cwblhau am fwy na blwyddyn. |

14. I bennu'r trywydd tai, dylid defnyddio'r Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir neu'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol fel y'u gwelir yn Llawlyfr y Cynlluniau Datblygu. Mae hyn yn dangos nifer cronnus y tai sydd wedi'u cwblhau o'i gymharu â'r Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir (AABR) neu Gofyniad Cyfartalog Blynyddol (AAR) ar gyfer y cyfnod.

15. Nid yw'r dangosydd hwn yn gymwys ond os oes gan yr awdurdod Gynllun Datblygu Lleol cyfredol fel y'i diffinnir o dan Ddangosydd 01.

## ADRAN 2 – EFFEITHLONRWYDD

**DANGOSYDD 07. Canran y ceisiadau "mawr" y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol**

| GWELLA | GWEDDOL | DA |
|---|---|---|
| • Penderfynwyd ar lai na 50% o'r ceisiadau o fewn y cyfnod amser statudol | • Penderfynwyd ar rhwng 50% ac 60% o'r ceisiadau o fewn y cyfnod amser statudol | • Penderfynwyd ar 60% neu fwy o'r ceisiadau o fewn y cyfnod amser statudol |

16. Diffinnir “datblygiad mawr” yn Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 fel:

*“datblygiad sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol—*

*(a) ennill a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion o weithfeydd mwynau);*
*(b) datblygiad gwastraff;*
*(c) darparu tai annedd—*
*(i) pan fo nifer y tai annedd sydd i'w darparu yn 10 neu ragor; neu*
*(ii) pan fwriedir cyflawni'r datblygiad ar safle sydd â'i arwynebedd yn 0.5 hectar neu'n fwy ac nad yw'n hysbys a yw'r datblygiad yn dod o fewn is-baragraff (c)(i);*
*(c)(i):*
*(d) darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr y bwriedir ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu ragor; neu*
*(e) datblygiad a gyflawnir ar safle sydd â'i arwynebedd yn 1 hectar neu'n fwy;”*

17. Mae’r cloc yn dechrau pan ddaw cais cynllunio dilys i law. Mae’r gofynion sy’n gwneud cais yn un dilys yn cael eu disgrifio yn Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Bydd y cloc yn stopio pan benderfynir ar y cais. Mae “penderfynu” yn golygu un o’r canlynol:
    a) Bod yr awdurdod wedi anfon yr hysbysiad penderfynu at yr ymgeisydd/asiant; neu
    b) Lle bo cais yn amodol ar gytundeb Adran 106, bod y Pwyllgor Cynllunio neu swyddog perthnasol sydd â chaniatâd ac sydd â phwerau dirprwyedig wedi penderfynu rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar gytundeb Adran 106. Tybir bod Cytundeb Adran 106 yn cael ei negodi ar ôl “penderfynu” ar y cais; neu
    c) Yn achos ceisiadau ar gyfer Caniatâd Adeilad Rhestredig, bod yr awdurdod wedi penderfynu rhoi’i ganiatâd ac wedi anfon y dogfennau perthnasol at Cadw. Tybir bod Cadw wedi ystyried y mater wedi hynny ar ôl i’r awdurdod “benderfynu” ar y cais.

18. Bydd angen ystyried tri chyfnod amser wrth fesur perfformiad yn unol â’r dangosydd hwn:
    - Yn achos ceisiadau y mae angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol ohonynt o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 , dylid penderfynu arnynt cyn pen 112 diwrnod (16 wythnos) ar ôl i gais cynllunio dilys ddod i law.
    - Dylid penderfynu ar geisiadau nad oes angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol ohonynt cyn pen 56 diwrnod (8 wythnos) ar ôl i gais cynllunio dilys ddod i law, yn unol â Gorchymyn 2012.

- Mae awdurdodau'n rhydd i lofnodi cytundeb Perfformiad Cynllunio neu gytuno'n ffurfiol ar estyniad ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio. Bydd hynny'n rhoi mwy o amser i'r awdurdod y tu hwnt i'r amserlenni statudol a nodir uchod. Mewn achosion o'r fath a lle bo'r targedau hynny wedi'u cyrraedd, tybir bod y ceisiadau hyn wedi'u penderfynu "mewn pryd" at ddiben y dangosydd hwn. Byddai methu targed a nodir mewn CPC neu estyniad ffurfiol yn golygu y tybir nad yw'r cais wedi'i benderfynu "mewn pryd".

19. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau llawn, amlinellol a materion cadw.

**DANGOSYDD 08. Amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau**

| GWELLA | GWEDDOL | DA |
|---|---|---|
| • I'w feincnodi | • I'w feincnodi | • I'w feincnodi |

20. Diffinnir cais "mawr" yn Nangosydd 05, a "penderfynwyd" hefyd. Cyfrifir y dangosydd hwn trwy rannu nifer y dyddiau a gymerwyd i benderfynu ar bob cais mawr yn y cyfnod adrodd diwethaf â nifer y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt yn y cyfnod hwnnw.

21. Cyfrifir yr "amser a gymerir ar gyfartaledd" trwy gyfuno cyfartaledd y pedwar chwarter ac yna rhannu'r cyfanswm â phedwar. Dylid edrych ar y ffigur a gyhoeddir yn siart y Fframwaith Perfformiad fel ffigur amcanol, ac mae cyfle i awdurdodau roi ffigur manylach yn eu Hadroddiadau Perfformiad Blynyddol trwy ddangos cyfanswm y ceisiadau mawr y flwyddyn, gan ddangos yr amser a gymerwyd i benderfynu ar y ceisiadau hynny a rhannu cyfanswm yr amser â chyfanswm y ceisiadau perthnasol.

**DANGOSYDD 09. Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol**

| GWELLA | GWEDDOL | DA |
|---|---|---|
| • Penderfynwyd ar lai na 70% o'r ceisiadau o fewn y cyfnod amser statudol | • Penderfynwyd ar rhwng 70% ac 80% o'r ceisiadau o fewn y cyfnod amser statudol | • Penderfynwyd ar 80% neu fwy o'r ceisiadau o fewn y cyfnod amser statudol |

22. Mae'r dangosydd hwn yn ystyried yr holl geisiadau perthnasol, gan gynnwys y ceisiadau "mawr" a drafodwyd yn nangosyddion 05 a 06. Dyma'r rhestr lawn o geisiadau y dylid eu hystyried o dan y dangosydd hwn:

- Cais am ganiatâd cynllunio llawn neu amlinellol, neu am gymeradwyaeth i faterion cadw, yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Mae hyn yn cynnwys datblygiadau EIA;
- Ceisiadau am ganiatâd dros-dro ac adnewyddu caniatâd cynllunio blaenorol ac i newid amodau (Ceisiadau Adran 73) neu i ryddhau amodau sydd wedi'u cyflawni ac sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio blaenorol;
- Ceisiadau am ganiatâd o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992;

- Ceisiadau yn sgil yr hysbysiadau o dan Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 lle bo’r awdurdod wedi penderfynu bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw;
- Ceisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig;
- Ceisiadau am Dystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd sy’n Bodoli o Ddatblygiad.
- Ceisiadau am Dystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad Arfaethedig.
- Ceisiadau a wnaed o ganlyniad i Erthygl 4 ac Erthygl 7 y Cyfarwyddiadau.
- Achosion Deddf Iawndal Tir 1961, h.y. ar gyfer ardystio datblygiad amgen priodol.

23. Diffinnir “penderfynwyd” ac “amser statudol” yn Nangosydd 05.

**DANGOSYDD 10. Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau**

| GWELLA | GWEDDOL | DA |
|---|---|---|
| • Mwy na 112 o ddiwrnodau | • Rhwng 67 a 112 o ddiwrnodau | • 67 o ddiwrnodau neu lai |

24. Mae’r dangosydd hwn yn ystyried yr holl geisiadau perthnasol, gan gynnwys y ceisiadau “mawr” a drafodwyd yn nangosyddion 05 a 06. Diffinnir y rhestr lawn o geisiadau y dylid eu cynnwys o dan y dangosydd hwn yn Nangosydd 07.

25. Diffinnir “penderfynwyd” ac “amser statudol” yn Nangosydd 05.

26. Cyfrifir y dangosydd hwn trwy rannu cyfanswm y dyddiau a gymerir i benderfynu ar bob cais yn y cyfnod adrodd â chyfanswm y ceisiadau y penderfynwyd arnynt.

27. Cyfrifir yr “amser a gymerwyd ar gyfartaledd” trwy gyfuno cyfartaledd y pedwar chwarter ac yna rhannu’r cyfanswm â phedwar. Dylid edrych ar y ffigur a gyhoeddir yn siart y Fframwaith Perfformiad fel ffigur amcanol, ac mae cyfle i awdurdodau roi ffigur manylach yn eu Hadroddiadau Perfformiad Blynyddol trwy ddangos cyfanswm y ceisiadau y flwyddyn, gan ddangos yr amser a gymerwyd i benderfynu ar y ceisiadau hynny a rhannu cyfanswm yr amser â chyfanswm y ceisiadau perthnasol.

**DANGOSYDD 11. Canran y ceisiadau Cydsyniad Adeilad Rhestredig y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol**

| GWELLA | GWEDDOL | DA |
|---|---|---|
| • Penderfynwyd ar lai na 70% o'r ceisiadau o fewn y cyfnod amser statudol | • Penderfynwyd ar rhwng 70% ac 80% o'r ceisiadau o fewn y cyfnod amser statudol | • Penderfynwyd ar 80% neu fwy o'r ceisiadau o fewn y cyfnod amser statudol |

28. Mae’r dangosydd hwn yn ystyried faint o amser a gymerir i benderfynu ar geisiadau am Gydsyniad Adeilad Rhestredig. Mae rhai ACLlau wedi cael awdurdod dirprwyedig oddi wrth Cadw

i benderfynu ar y ceisiadau hyn, ac yn yr achosion hynny, mae'r amser a gymerir i benderfynu ar y cais yn cael ei fesur o'r diwrnod y daw cais dilys i law tan i hysbysiad penderfynu gael ei roi.

29. Mewn achosion lle nad yw ACLlau wedi cael awdurdod dirprwyedig oddi wrth Cadw i benderfynu ar y cais, yna bernir mai'r dyddiad y "penderfynwyd" ar y cais yw'r dyddiad pan anfonir y cais at Cadw er mwyn i'r corff hwnnw benderfynu arno.

30. Y cyfnodau amser perthnasol ar gyfer penderfynu ar gais yw 8 wythnos, oni bai bod yr ymgeisydd yn cytuno ar estyniad. Mewn achosion o'r fath, bernir bod y cais yn un sydd "o fewn yr amser" yn yr un modd ag a nodir ar gyfer dangosydd 07 uchod.

## ANSAWDD 3 – ANSAWDD

**DANGOSYDD 12. Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion**

| GWELLA | GWEDDOL | DA |
|---|---|---|
| • Mwy na 9% o benderfyniadau'n cael eu gwneud yn groes i gyngor swyddogion | • Rhwng 5% a 9% o benderfyniadau'n cael eu gwneud yn groes i gyngor swyddogion | • Llai na 5% o benderfyniadau'n cael eu gwneud yn groes i gyngor swyddogion |

31. Mae "penderfyniadau a wnaed gan Aelodau" yn golygu penderfyniadau a wnaed gan Bwyllgor Cynllunio'r awdurdod.

32. Mae "penderfyniadau a wnaed yn groes i gyngor swyddogion" yn golygu bod penderfyniad wedi'i wneud (gweler diffiniad Dangosydd 05) ynghylch y cais ac mai penderfyniad y Pwyllgor oedd:

- rhoi caniatâd er bod adroddiad y swyddog yn argymell gwrthod; neu
- gwrthod caniatâd er bod adroddiad y swyddog yn argymell cymeradwyo.

33. I esbonio, câi ceisiadau eu cynnwys o fewn y mesur hwn os, o fewn y cyfnod perthnasol:
    - Bod y Pwyllgor Cynllunio wedi penderfynu, yn groes i argymhelliad y swyddog, rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar gytundeb adran 106;
    - Bod y Pwyllgor Cynllunio wedi penderfynu, yn groes i argymhelliad y swyddog, rhoi Caniatâd Adeilad Rhestredig a bod y dogfennau wedi'u hanfon at Cadw;
    - Bod y Pwyllgor Cynllunio wedi penderfynu, yn groes i argymhelliad y swyddog, rhoi neu wrthod unrhyw gais arall a bod yr hysbysiad penderfyniad wedi'i roi.

34. Lle bo awdurdodau yn cael cyfnod i 'ailystyried', dyddiad penderfyniad terfynol y Pwyllgor yw'r dyddiad a ddefnyddir.

**DANGOSYDD 13. Canran yr apelau a gafodd eu gwrthod**

| GWELLA | GWEDDOL | DA |
| --- | --- | --- |
| • Llai na 55% o'r penderfyniadau cynllunio'n wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl. | • Rhwng 55% a 66% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl | • Mwy na 66% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl |

35. Mae’r dangosydd hwn yn ymwneud ag apelau y mae Gweinidogion Cymru (neu’r Arolygiaeth Gynllunio ar eu rhan) yn penderfynu arnynt o dan Adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae “gwrthod” yn golygu bod Gweinidogion Cymru neu’r Arolygydd wedi cefnogi penderfyniad yr awdurdod.

**DANGOSYDD 14. Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn ystod y cyfnod adrodd**

| GWELLA | GWEDDOL | DA |
| --- | --- | --- |
| • Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau dwy apêl neu fwy yn ei erbyn | • Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau un apêl yn ei erbyn | • Nid yw'r awdudod wedi gorfod talu costau unrhyw apêl yn ei erbyn. |

36. Mae “gorfod talu costau” yn golygu bod yr Arolygydd wedi dyfarnu mewn apêl Adran 78 fod yr awdurdod wedi ymddwyn yn afresymol, naill ai o ran y weithdrefn (sy’n ymwneud â’r broses) neu o ran sylwedd (yn ymwneud â materion sy’n codi o rinweddau’r apêl), a rhoddwyd costau i’r ymgeisydd, yn y cyfnod adrodd.

## ADRAN 4 – YMGYSYLLTU

**DANGOSYDD 15. A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau o’r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?**

| GWELLA | DA |
| --- | --- |
| • Nid yw aelodau o'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio | • Mae aelodau o'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio |

37. Mae “gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio” yn golygu bod gan yr awdurdod brotocol swyddogol ar gyfer galluogi aelodau’r cyhoedd i annerch y pwyllgor cynllunio ar lafar wrth iddo benderfynu ar gais cynllunio.

**DANGOSYDD 16. A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd?**

| GWELLA | GWEDDOL | DA |
|---|---|---|
| • Nid oes swyddog cynllunio ar ddyletswydd ar gael | • Mae swyddog cynllunio ar ddyletswydd ond ddim bob tro yn ystod oriau swyddfa arferol | • Mae swyddog cynllunio ar ddyletswydd yn ystod oriau swyddfa arferol |

38. Mae "swyddog cynllunio" yn golygu aelod o staff ac un o'i ddyletswyddau yw penderfynu ar geisiadau cynllunio.

39. Mae "oriau swyddfa arferol" yn golygu 9am i 5pm, ddydd Llun i ddydd Gwener, heb gynnwys gwyliau banc.

40. Mae "i roi cyngor" yn golygu bod cyngor ar gael i'r ymgeisydd neu aelod arall o'r cyhoedd o ofyn amdano. Gellir ei gael wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

- Mae cyngor dros y ffôn yn golygu bod y cyngor yn cael ei roi i ddefnyddiwr y gwasanaeth naill ai gyda bod yr awdurdod yn derbyn galwad ffôn neu fod yr awdurdod yn trefnu bod swyddog cynllunio yn galw defnyddiwr y gwasanaeth yn ôl i roi cyngor iddo, yn ystod oriau swyddfa arferol.
- Mae cyngor wyneb yn wyneb yn golygu naill ai bod y swyddog cynllunio sydd ar ddyletswydd yn rhoi cyngor yn uniongyrchol yn ystod oriau swyddfa arferol neu fod staff gwasanaethu cwsmeriaid yn trefnu cyfarfod lle gall defnyddiwr y gwasanaeth dderbyn cyngor wyneb yn wyneb (p'un a oes ffi neu beidio am gyngor cyn ymgeisio).

**DANGOSYDD 17. A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau o'r cyhoedd er mwyn iddynt fedru olrhain hynt y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?**

| GWELLA | GWEDDOL | DA |
|---|---|---|
| • Ni chyhoeddir gwybodaeth am geisiadau cynllunio ar-lein | • Dim ond manylion y cais cynllunio sydd ar gael ar-lein | • Mae pob dogfen ar gael ar-lein |

41. Mae "pob dogfen" yn golygu bod copi llawn o'r holl ddogfennau y dylid eu rhoi ar y gofrestr gyhoeddus o geisiadau cynllunio, yn unol ag Adran 29(2)a i 29(2)d [Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012] "ar gael yn electronig. Ni chynhwysir dogfennau na chaniateir eu cyhoeddi, er enghraifft oherwydd cyfrinachedd masnachol (e.e. arfarniad o hyfywedd) neu oherwydd deddfwriaeth arall (e.e. lleoliad brochfa moch daear).

42. Mae "manylion y cais cynllunio" yn golygu mai dim ond y cais cynllunio ei hun, fel y'i disgrifir yn Adran 29(2)a o Orchymyn 2012, sydd ar gael yn electronig.

43. Mae "Ni chyhoeddir gwybodaeth am geisiadau cynllunio" yn golygu nad yw'r cais a ddisgrifir yn Adran 29(2)a yng Ngorchymyn 2012 ar gael i'w weld yn electronig.

## ADRAN 5 – GORFODI

44. Cytunwyd ym mis Mehefin 2017 ar newidiadau i'r gyfres o ddangosyddion yn y Fframwaith Perfformiad ar gyfer mesur sut y mae'r system orfodi'n cael ei gweithredu. Roedd y newidiadau hynny'n cynnwys dileu'r dangosyddion a oedd yn mesur faint o amser, ar gyfartaledd, a gymerir i ymchwilio i achosion gorfodi ym maes cynllunio, a chanran yr achosion gorfodi a gafodd eu datrys o fewn 180 o ddiwrnodau. Cyflwynwyd dangosydd newydd hefyd, sy'n mesur yr amser a gymerir, ar gyfartaledd, i gymryd camau gorfodi cadarnhaol pan welir bod y rheolau wedi'u torri.

**DANGOSYDD 18. Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod**

| GWELLA | GWEDDOL | DA |
|---|---|---|
| • Ymchwiliad yn cael ei gynnal o fewn 84 o ddiwrnodau ar lai na 70% o'r ceisiadau | • Ymchwiliad yn cael ei gynnal o fewn 84 o ddiwrnodau ar rhwng 70% ac 80% o'r ceisiadau | • Ymchwiliad yn cael ei gynnal o fewn 84 o ddiwrnodau ar 80% neu fwy o'r ceisiadau |

45. Pwrpas y dangosydd hwn yw mesur "Cam Ymchwilio" yr holl fathau gwahanol o achosion gorfodi gan gynnwys achosion rhagweithiol, achosion monitro, achosion mewnol (h.y. o ran arall o'r Awdurdod), cwynion am Gynghorydd neu Gyngor Cymuned/Tref neu gwynion gan aelod o'r cyhoedd, p'un a ydynt yn ddienw neu beidio. Mae hynny'n dilyn y cyngor yn y "Llawlyfr Rheoli Datblygu" ar wneud "penderfyniad cynnar ynglŷn â'r angen am ganiatâd cynllunio, ac os oes angen, ynglŷn â'r cwestiwn a yw'r datblygiad yn dderbynio"' (paragraff 14.2.5). Dylid gwneud penderfyniadau cynnar hefyd mewn achosion gorfodi sy'n ymwneud â thir anniben, hysbysebion sydd wedi'u gosod yn anghyfreithlon neu waith heb ganiatâd ar Adeiladau Rhestredig. Nid rhywbeth i'w ystyried pan fydd popeth arall wedi methu yw camau gorfodi mwyach. Ychwanegwyd Arfau Gorfodi newydd (e.e. Hysbysiadau Atal Dros Dro a Hysbysiadau Rhybudd Gorfodi) yn ddiweddar gyda'r bwriad o'u defnyddio i helpu swyddogion gorfodi i ddatrys achosion gorfodi'n gyflym. Mae paragraff 14.2.6 y Llawlyfr Rheoli Datblygu yn cadarnhau hynny trwy ddweud:

> "Mae camau gorfodi buan yn golygu bod datblygiad anawdurdodedig yn llai tebygol o sefydlu ei hun a bod yn anodd i'w gywiro. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen cadw at y terfynau amser statudol ar gyfer cymryd camau gorfodi".

46. Bwriedir i'r dangosydd fesur canran yr holl achosion y llwyddir i ymchwilio iddynt o fewn amserlen benodol. Nod hynny yw annog yr awdurdod i ddelio â phob achos gorfodi'n gyflym a sicrhau bod y cyhoedd yn dod i wybod am ganlyniad ymchwiliadau a'r camau y bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn eu cymryd i ddatrys rheol cynllunio sydd wedi'i thorri lle gwelir bod un wedi'i thorri.

47. At ddiben y dangosydd hwn, dyma ddiffiniadau:

- Achos gorfodi: Achos gorfodi yw:

  i. unrhyw gwynion sy'n ymwneud ag un achos honedig o dorri'r rheolau cynllunio a ddygwyd at sylw'r Awdurdod Cynllunio Lleol gan unrhyw barti (h.y. aelod o'r cyhoedd, Cynghorydd, Cyngor Cymuned neu unrhyw barti o du allan y Cyngor) trwy ba gyfrwng

cyfathrebu bynnag, gan gynnwys cwynion di-enw, os mai'r Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n gyfrifol am ymchwilio i'r achosion hynny; a

ii. unrhyw ymchwiliad gorfodi rhagweithiol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol na chafodd ei gynnal am fod cwyn wedi'i wneud, gan gynnwys achosion sy'n deillio o adrannau mewnol eraill yr Awdurdod.

- Wedi'i ymchwilio: Mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi ystyried y mater sy'n destun sylw'r achos gorfodi, gan ddod i'r casgliad bod un o'r canlyniadau canlynol wedi digwydd a'i fod wedi rhoi gwybod yn ysgrifenedig (yn electronig neu drwy lythyr) i achwynydd am y canlyniad.

- Canlyniadau Ymchwiliad:

i. nad oes unrhyw reolau cynllunio wedi'u torri neu nad oes unrhyw reol yn cael ei thorri bellach;

ii. mae rheol wedi'i thorri ond mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi penderfynu'n ffurfiol na fyddai cymryd camau gorfodi cynllunio yn fuddiol;

iii. bod rheol wedi'i thorri ac y byddai cymryd camau gorfodi yn fuddiol a bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi penderfynu rhoi hysbysiad Gorfodi (gan gynnwys Hysbysiad Rhybudd Gorfodi, Hysbysiad Torri Amod, Hysbysiad Gorfodi Adeilad Rhestredig neu Hysbysiad sy'n Gofyn am Gadw Tir yn Briodol) neu erlyn tramgwyddwr mewn achosion lle bo cynnal gwaith heb awdurdod yn dramgwydd (e.e. hysbysebion, gwaith ar adeilad rhestredig, gwaith ar goed gwarchodedig ac ati); neu

iv. bod cais cynllunio dilys (gan gynnwys NMA, Gollwng Amodau, Tystysgrif Cyfreithlondeb, Hysbysebion a cheisiadau Adeilad Rhestredig) i gadw'r datblygiad neu i unioni'r tramgwydd ar y safle wedi dod i law.

- Y Tramgwydd: Mae tramgwydd yn cynnwys tir anniben ac unrhyw waith a wnaed heb ddilyn y drefn briodol ar gyfer hysbysu neu ofyn am ganiatâd neu gydsyniad. I bob pwrpas, cymerir ei fod yn golygu unrhyw fater gorfodi ym maes cynllunio a ddaw o dan gwmpas Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (1990), Deddf Gynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992.

- Penderfynu a yw'n fuddiol: Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud yn achos canlyniad ii neu iii uchod bod cymryd camau gorfodi'n fuddiol, penderfyniad ffurfiol yr Awdurdod Cynllunio Lleol fydd hwn, yn unol â'i gyfansoddiad/cynllun dirprwyo. Nid penderfyniad anffurfiol y swyddog gorfodi sy'n ymchwilio mohono, os nad yw'r penderfyniad wedi'i ddirprwyo iddo.

48. O ran y dyddiadau sydd i'w cofnodi mewn cysylltiad â'r dangosydd hwn, mae'r cloc yn dechrau ar y diwrnod (gwaith cyntaf) pan agorir achos rhagweithiol neu y daw cwyn gorfodi i law'r Awdurdodau Cynllunio Lleol oddi wrth achwynydd neu drwy Gynghorydd neu gorff/adran/person arall. Gallai ddod trwy lythyr, e-bost neu alwad ffôn, ond anogir Awdurdodau Cynllunio Lleol i sicrhau cysondeb o ran derbyn gwybodaeth am dramgwyddau trwy ganiatáu i bobl eu cyflwyno'n electronig. Bydd y cloc yn stopio ar gyfer y 'cam ymchwilio' hwn pan fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol 'wedi ymchwilio' i achos gorfodi, fel y'i diffinnir ym mharagraff 48 uchod.

49. Wrth gofnodi'r Dangosydd, dylid defnyddio'r dyddiad 'wedi ymchwilio'. O'r herwydd, o ran cyfrif nifer yr Achosion Gorfodi sydd â 'dyddiad wedi ymchwilio' sydd o fewn y cyfnod a bennwyd, dylid cofnodi'n gyntaf nifer yr achosion yr ymchwiliwyd iddynt mewn llai nag 84 diwrnod ac yn ail, nifer yr achosion yr 'ymchwiliwyd' iddynt mewn 84 diwrnod a mwy.

50. Os nad oes 'achwynydd' (h.y. ymchwiliad rhagweithiol neu fod adroddiad yn dod i law oddi wrth adran arall yn yr Awdurdod), bydd y cloc yn stopio pan fydd yr ACLl yn dod i'r casgliad bod un o'r canlyniadau uchod wedi digwydd (gweler paragraff 48) a'i fod wedi cofnodi hynny ar ffeil/cofnod yr achos.

51. Os bydd Awdurdod Cynllunio Lleol yn dod i'r casgliad bod canlyniad i neu ganlyniad ii wedi digwydd, ni chaiff y penderfyniad ei gofnodi (h.y. ni chofnodir dyddiad) at ddiben Dangosydd 19 (Dangosydd Camau Cadarnhaol).

52. Pan ddaw cais cynllunio i law sy'n cynnig cadw'r datblygiad cyn i ACLl gwblhau'r cam ymchwilio, ystyrir bod y cam ymchwilio wedi cau ar dyddiad y daw cais cynllunio dilys i law.

53. Mewn achosion lle gwelir nad yw’r rheolau cynllunio’n cael eu torri bellach cyn i’r ACLl gwblhau’r cam ymchwilio,  bernir bod y cam ymchwilio wedi cau ar y dyddiad yr hysbysir yr achwynydd yn ysgrifenedig nad yw’r rheolau cynllunio’n cael eu torri bellach neu yn achos achosion rhagweithiol/di-enw, y dyddiad pan fydd yr ACLl yn gweld nad yw'r rheolau cynllunio'n cael eu torri bellach.

54. Os penderfynir bod achos o dorri rheol cynllunio'n fuddiol o dan ganlyniad iii neu os oes cais am ganiatâd cynllunio wedi'i wneud o dan ganlyniad iv, bydd y cloc yn cychwyn mewn perthynas â Dangosydd 19.

**DANGOSYDD 19.  Amser a gymerir, ar gyfartaledd, i gymryd camau gorfodi cadarnhaol mewn achos pan gadarnhawyd bod y rheolau cynllunio wedi’u torri**

| GWELLA | GWEDDOL | DA |
|---|---|---|
| • I'w feincnodi | • I'w feincnodi | • I'w feincnodi |

55. Pwrpas y dangosydd yw mesur yr amser a gymerir i gymryd camau o ryw fath mewn Achos Gorfodi lle penderfynwyd bod y tramgwydd yn fuddiol neu yr amser a gymerir i Awdurdod Cynllunio Lleol benderfynu ar gais a gyflwynwyd i geisio unioni tramgwydd. Y 'Cam Cadarnhaol' yw'r cyfnod sy'n dilyn cam ymchwilio mewn achos gorfodi, ond ni fydd Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei gofnodi oni cheir canlyniad (iii) a (iv) paragraff 48. Ni fydd y dangosydd yn cofnodi felly ond yr achosion y penderfynwyd eu bod yn 'fuddiol' yn Nangosydd 18 o dan ganlyniad (iii) paragraff 48 neu'r achosion hynny lle bo cais cynllunio wedi dod i law cyn i benderfyniad gael ei wneud (yn unol â chanlyniad (iv), paragraff 48 Dangosydd 18).

56. At ddiben y dangosydd hwn, dyma ddiffiniadau:

- Camau Cadarnhaol: Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi dod i'r casgliad bod un o'r canlyniadau canlynol wedi digwydd a'i fod wedi hysbysu'r achwynydd amdano yn ysgrifenedig (yn electronig neu drwy lythyr).

- Canlyniadau Camau Cadarnhaol:

i. Cafwyd penderfyniad ffurfiol bod tramgwydd yn fuddiol ond bod trafod anffurfiol wedi hynny yn golygu nad yw'r rheol yn cael ei thorri bellach;
ii. Rhoi Hysbysiad Gorfodi. Mae Hysbysiad Gorfodi'n cynnwys Hysbysiad Stop, Hysbysiad Torri Amodau, Hysbysiad Rhybudd Gorfodi, Hysbysiad Tir Anniben (adran 215 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990), unrhyw fath o Hysbysiad Gorfodaeth ar gyfer Adeilad Rhestredig, Hysbysiad Amnewid Coed, Hysbysiad Amnewid Perthi neu Hysbysiad Cwblhau ond nid yw'n cynnwys Hysbysiad Tramgwyddo Cynllunio, Hysbysiad Adran 330 (o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990), Hysbysiad Stop Dros Dro neu Archeb Gwybodaeth;
iii. Rhoddir caniatâd cynllunio wedyn trwy gais neu apêl gorfodi;
iv. Bod erlyniad wedi'i ddwyn (bernir mai dyddiad clywed yr achos am y tro cyntaf yw dyddiad y 'cam cadarnhaol'); neu
v. Camau uniongyrchol gan yr Awdurdod yn golygu nad yw'r rheol yn cael ei thorri mwyach.

57. Mesurir Cam Cadarnhaol achos Gorfodi o dyddiad cofnodi diwedd y cyfnod 'ymchwilio' (gweler paragraff 48 uchod) hyd y dyddiad y bydd un o'r canlyniadau a restrir uchod yn digwydd (gweler paragraff 56).

58. Cyfrifir cyfartaledd yr Awdurdod Cynllunio Lleol trwy adio cyfanswm y dyddiau a gymerir i gymryd camau gorfodi cadarnhaol ar gyfer pob achos gorfodi sydd â dyddiad 'cam cadarnhaol' sydd o fewn y cyfnod cofnodi, a'i rannu â chyfanswm yr achosion y penderfynwyd y byddai cymryd camau gorfodi yn gam buddiol i'w gymryd neu lle bo cais wedi'i gyflwyno i geisio unioni'r tramgwydd'.

59. Cyfrifir yr 'amser a gymerir ar gyfartaledd' ar gyfer achosion lle cymerir camau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn trwy adio cyfartaledd y pedwar chwarter, a rhannu'r cyfanswm â phedwar. Amcanol yw'r ffigur yn y Tabl Fframwaith Perfformiad, a mater i'r ACLl yw darparu ffigur manylach yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol trwy ddangos cyfanswm yr achosion y barnwyd eu bod yn fuddiol bob blwyddyn, gan ddangos cyfanswm yr amser a gymerwyd i gymryd camau cadarnhaol mewn cysylltiad â'r achosion hynny, a rhannu cyfanswm yr amser â chyfanswm yr achosion.

60. Mae canlyniad (i) yn ymwneud â'r trafod anffurfiol sy'n digwydd fel nad yw rheol yn cael ei thorri bellach. Defnyddir hyn i fesur yr achosion hynny lle mae penderfyniad eisoes wedi'i wneud bod achos yn 'Fuddiol' o dan Ddangosydd 18 (fel y'i diffinnir ym mharagraff 48) a bod y trafod rhwng yr ACLl a'r tramgwyddwr wedi arwain at sicrhau nad yw'r rheol cynllunio yn cael ei thorri bellach, hynny heb fod angen cyhoeddi Hysbysiad Gorfodi. Ni chaiff y canlyniad hwn ei ddefnyddio i fesur yr achosion hynny lle bu trafod anffurfiol o dan Ddangosydd 16 cyn bod penderfyniad yn cael ei wneud bod achos yn fuddiol.

# ATODIAD A

**Crynodeb o Ddangosyddion a Thargedau'r Fframwaith Perfformiad**

| **Dangosydd** | **Da** | **Gweddol** | **Gwella** |
|---|---|---|---|
| **Gwneud Cynllun** | | | |
| A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun? | Oes | | Nac oes |
| Y gwyriad, wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd. | <12 | 13-18 | >18 |
| Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u paratoi ar ôl i'r CDLl gael ei fabwysiadu | Oes | | Nac oes |
| Amser rhwng rhoi Rheoliad 41 ar waith a chyflwyno Cytundeb Cyflenwi er mwyn adolygu'r cynllun, mewn misoedd | <12 | 13-18 | >18 |
| Cyfnod adolygu Cynllun Datblygu Lleol yn gwyro o'r dyddiadau a bennwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd | Ydy | | Nac ydy |
| Diffyg o ran nifer cronnus y tai sydd wedi'u cwblhau o'i gymharu â'r Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir (AABR) neu'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol (AAR) mewn blynyddoedd | Oes 0-1 flwyddyn | | 2> flynedd |
| **Effeithlonrwydd** | | | |
| Canran y ceisiadau "mawr" y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol | >=60.0 | 50.0-59.9 | <50.0 |
| Amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau | Y targed i'w feincnodi | Y targed i'w feincnodi | Y targed i'w feincnodi |
| Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol | >=80.0 | 70.0-79.9 | <70.0 |
| Amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau | <=67 | 68-112 | 112 |
| Canran y ceisiadau Cysyniad Adeilad Rhestredig y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol | >=80.0 | 70.0-79.9 | <70.0 |
| Ansawdd | | | |
| Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion | <5.0 | 5.0-8.9 | >9.0 |
| Canran yr apelau a gafodd eu gwrthod | >=66.0 | 55.0-65.9 | <55.0 |
| Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn ystod y cyfnod adrodd | 0 | 1 | 2 |
| Ymgysylltu | | | |
| A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio? | Ydy | | Nac ydy |
| A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd? | Oes | | Nac oes |
| A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau o'r cyhoedd er mwyn iddynt fedru olrhain hynt y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)? | Oes | Rhannol | Nac oes |
| Gorfodi | | | |
| Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | >=80.0 | 70.0-79.9 | <70.0 |
| Amser a gymerir ar gyfartaledd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol | Y targed i'w feincnodi | Y targed i'w feincnodi | Y targed i'w feincnodi |